

MORGAN, DAVID THOMAS (c. 1695 - 1746), 'Jacobite'

Enw: David Thomas Morgan

Dyddiad geni: c. 1695

Dyddiad marw: 1746

Plentyn: Mary Morgan

Rhiant: Dorothy Morgan (née Mathew)

Rhiant: Thomas Morgan

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: 'Jacobite'

Maes gweithgaredd: Gwrthryfelwyr; Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: David Williams

mab Thomas a Dorothy Morgan, y tad yn ail fab William Morgan, Coed-y-gorres, a'r fam yn ferch [David Mathew](#), Llandaf, ac yres [Syr Edmund Stradling](#), S. Donat's. Trwy ei fam yr oedd, felly, yn perthyn i deuluoedd tiriog amlwg Sir Forgannwg; trwy ei dad yr oedd, efallai, yn perthyn i [Foraniaid](#) Tredegar. Disgrifir ef 'o Benygraig ' (gerllaw Quakers Yard), ym mhlwyf Merthyr Tydfil, eiddo a etifeddodd, y mae'n debyg, trwy ei fam. Ni wyddys le na dyddiad ei eni; pan oedd yn sefyll ei brawf yn 1746 dywedid ei fod 'tua 51.' Ymddengys ei fod yn byw yn Llundain, yn briod, a chanddo ferch o'r enw Mary. Yr oedd ganddo eiddo yn Shoreditch, a ddaeth iddo, hwyrach, ar ei briodas. Ysgrifennodd gryn lawer o farddoniaeth ac y mae peth ohoni wedi ei gadw hyd heddiw. Yr oedd yn fargyfreithiwr; y mae ganddo un ddychangerdd yn disgrifio'r barnwyr Carter a Proctor yng nghylchdaith Brycheiniog y Sesiwn Fawr sydd efallai yn awgrymu ei fod yn ymarfer yn y gylchdaith honno. Ac eto dywed amdano'i hun: 'As one bred to the law, I confess that I never pretended to much knowledge that way.' Yr oedd Morgan yn Uchel Eglwyswr ac yn aelod gweithgar o 'The Independent Electors of Westminster,' clwb yn ymlynu wrth y Stiwartiaid. Ym mis Tachwedd 1745 aeth o Benygraig i Spetchley, gerllaw Worcester, lle y cyfarfu â [William Vaughan](#), Courtfield. Cydymdeithiasant trwy swydd Stafford i Leigh yn Lancashire ac ymlaen i Preston, lle'r ymunasant â'r 'Ymhonnwr leuanc' ('The Young Pretender'). Rhoddwyd i Morgan swydd o ymddiriedaeth yn llu'r gwrthryfelwyr ac adnabyddid ef wrth yr enw 'The Prince's Counsellor.' Wedi cyrraedd Manceinion bu'n cynorthwyo i godi'r 'Manchester Regiment' a chynigiwyd iddo ofal y llw hwnnw eithr gwrthododd am nad ydoedd yn r milwrol. (Serch hynny, pan oedd ar ei brawf dywedodd '[that he had] served the crown of England in two campaigns with some reputation'). Pan oedd yn symud ymlaen trwy Loegr yr oedd yn brysur yn goruchwyllo'r gwaith o chwilio am offer rhyfel. Pan oedd y tywysog yn encilio o Derby aeth Morgan gydag ef am un diwrnod cyn belled ag Ashbourne; yno gadawodd y fyddin ac yn fuan iawn cymerwyd ef i'r ddalfa yn Stone. Pan ddaliwyd ef, dywedodd y bwriedid ymdaith trwy Warwick i Rydychen ac y byddai i'r myfyrwyr ymuno â'r tywysog yno, a thrwy hynny beri i'w teuluoedd ymuno i'w bleidio; y mae'n eithaf posibl mai dyna oedd cyngor Morgan yn y trafodaethau brwd a gafwyd cyn i'r tywysog benderfynu troi yn ei ôl. Cadwyd Morgan yng ngharchar Newgate yn Llundain hyd y cafodd ei brofi a'i gondemnio ar 22 Gorffennaf 1746. Wyth niwrnod wedi hynny rhoddwyd ef i farwolaeth ar Kennington Common - gyda'r holl farbareiddiwch a oedd yn arferol pan leddid dyn oblegid teyrnfradwriaeth. Ceir ei gred wleidyddol wedi ei hysgrifennu ar bapur a roes ef ei hunan i siryf Surrey cyn iddo gael ei ladd; argraffwyd y gred hon gan William Llewellyn yn ei erthygl ef ar Morgan.

Awdur

Yr Athro Emeritus David Williams, (1900 - 1978)

Ffynonellau

T. B. Howells, *A Complete Collection of State Trials ...* (1816–98), xviii (1816)

William Llewellyn, 'David Morgan the Welsh Jacobite,' *Cambrian Journal* (1854–64), 1861 (adargraffwyd 1862)

J. Arthur Price, 'Suffering for the White Rose,' *Wales, a National Magazine for the English speaking parts of Wales*, 1895

ibid., 'Sidelights on Welsh Jacobitism,' *Y Cymmrodor*, 1901

H. M. Vaughan, 'Welsh Jacobitism,' *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1920-1

L. Eardley Simpson, *Derby and the '45* (1933)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [306131670](#)

Wikidata: [Q19325383](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

